





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Siarter Budd-daliadau Cymru

Chwefror 2024

# Cyflwyniad



**Mae ymrwymiadau Siarter Budd-daliadau Cymru yn angenrheidiol ar gyfer sicrhau system budd-daliadau i Gymru sydd yn gydlynol a thosturiol ac yn seiliedig ar barch at hawliau dynol sylfaenol a chydraddoldeb.**

Bydd yr ymrwymiadau'n gwella hygyrchedd y system, gan alluogi mwy o bobl Cymru i fanteisio ar eu hawl i gymorth ariannol a sicrhau bod budd-daliadau yng Nghymru yn cael eu gweinyddu'n gyson ledled y wlad, a hynny mewn modd effeithlon.

Maent wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a'u hailgynllunio yn seiliedig ar adborth gan unigolion a sefydliadau sy'n eu cefnogi.

# Rhagair



**Jane Hutt AS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**

Mae creu system fudd-daliadau gydlynol i Gymru wedi bod yn uchelgais hirdymor i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. A hynny er mwyn sicrhau bod pobl yng Nghymru yn hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt yr hawl i'w gael.

Inni wneud gwahaniaeth sylweddol i'r ffordd y caiff budd-daliadau datganoledig eu darparu a'u talu, bydd angen ymdrech ar y cyd gan amrywiaeth o bartneriaid, a bydd angen i Awdurdodau Lleol gymryd rôl arweiniol. Bu sawl ymgais i geisio cydlynu system fudd-daliadau Cymru yn y gorffennol.

Fodd bynnag, mae'r rhain wedi tueddu i fod yn dameidiog ac yn ddarniog heb unrhyw arweiniad strategol.

Gwyddom fod ein budd-daliadau yng Nghymru, sy'n cynnwys cymorth fel Prydau Ysgol am Ddim, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Grant Hanfodion Ysgolion, Lwfans Cynhaliaeth Addysg, yn cynnig achubiaeth i gannoedd o filoedd o bobl yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau bod modd manteisio ar y cymorth hwn yn ddidrafferth, byddwn yn gweithio'n gyflym i ddatblygu a chyflwyno cynllun i symleiddio system fudd-daliadau Cymru.

Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau bod y dull gweithredu a gymerir ar gyfer gweinyddu budd-daliadau Cymru yn un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn un dosturiol, ac yn un sy'n seiliedig ar hawliau. Mae datblygu a gweithredu Siarter Budd-daliadau Cymru yn gam pwysig o ran sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ymsefydlogi.

A cham sylweddol yn y cyfeiriad iawn yw cael Siarter sy'n cael ei dilyn gan bob un o'r 22 Awdurdod Lleol. Mae hynny'n cadarnhau'r ymrwymiad ar y cyd i wella'r mynediad at gymorth ariannol i bobl ledled Cymru. Cafodd y Siarter ei datblygu ar y cyd â grŵp o randdeiliaid sy'n rhannu'r un amcan i gefnogi'r bobl fwyaf difreintiedig.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith datblygu hwn a'r gwaith a wneir gan ein grŵp rhanddeiliaid sy'n ystyried fffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar incwm – a sefydlwyd i helpu i ysgogi newid Sa gwelliant.

Mae'r Siarter yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fyddwn yn cydweithio tuag at nod cyffredin. Yn olaf, hoffwn bwysleisio bod y Siarter hon yn rhan o'r daith, ac nid diwedd y daith. Er mwyn inni ddod ag ymrwymiadau'r Siarter i rym, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn ffordd arloesol ac ar y cyd â rhanddeiliaid ac Awdurdodau Lleol i'w rhoi ar waith.

# Ymrwymiadau Siarter Budd-daliadau Cymru

## Cynllunio System Budd-daliadau Cymru

**Bydd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill, rhanddeiliaid allweddol, a phobl sy'n manteisio ar fudd-daliadau yn gweithio mewn partneriaeth i gynllunio system gynhwysol sydd yn:**

- dangos tegwch a chydraddoldeb wrth ddarparu budd-daliadau a grantiau yng Nghymru i sicrhau urddas a pharch wrth drin unigolion heb wahaniaethu. Bydd hyn yn cael ei ategu gan bolisïau sy'n adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2002[1].
- hyblyg, heb wthio’r un fethodoleg ar bawb, ac yn gallu ymateb yn gyflym i'r newidiadau a'r pwysau sy’n effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru.
- diwallu anghenion grwpiau ymylol a difreintiedig sy'n arbennig o agored i dlodi, gan gydnabod amrywiaeth pobl Cymru yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- nodi a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag hawlio yr hyn sy’n ddyledus iddynt, ac yn helpu pobl yn rhagweithiol i gael mynediad at y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo.
- gwerthuso prosesau a systemau gyda'r bobl a fydd yn eu defnyddio cyn eu rhoi ar waith.
- annog adborth, ac ymateb iddo er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl.
- gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yng Nghymru sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol.'
- sicrhau bod budd-daliadau newydd Cymru wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r system fudd-daliadau datganoledig bresennol, gan nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.
- gwneud defnydd o arferion rhannu data er budd y cyhoedd, yn unol â’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- gweithredu yn unol â Safonau’r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan hyrwyddo a hwyluso gallu dinasyddion i gael mynediad at y system mewn Cymraeg clir, hygyrch.

---

1 Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn dangos bod gwahaniaeth pwysig rhwng anabledd ac amhariad ac yn rhoi'r cyfrifoldeb yn ôl ar gymdeithas i gael gwared ar rwystrau sy'n achosi anabledd. Am ragor o wybodaeth cliciwch yma **Y Model Cymdeithasol – Anabledd Cymru**. www.disabilitywales.org/social-model/?lang=cy

# Cyflwyno System Budd-daliadau Cymru

**Bydd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill, rhanddeiliaid allweddol, a phobl sy'n manteisio ar fudd-daliadau yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno system gynhwysol sydd yn:**

- dyrannu adnoddau yn deg ac yn effeithlon ledled Cymru i ddarparu gwasanaeth sy'n rhoi pobl yn gyntaf.
- sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal, yn deg a heb wahaniaethu a bod y model cymdeithasol o anabledd yn cael ei fabwysiadu gan yr holl bartneriaid cyflawni.
- addasu'r broses a'r systemau i ddiwallu anghenion a dewisiadau unigol ac archwilio dulliau a fydd yn sicrhau un pwynt mynediad ar gyfer budd-daliadau Cymru i gynnwys sawl sianel gyfathrebu – dulliau digidol, dros y ffôn neu drwy'r post.
- cadw at Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru[2].
- hwyluso'r dull o nodi cymhwysedd am gymorth ariannol arall.
- codi ymwybyddiaeth a galluogi'r rhai sy'n gymwys i fanteisio ar eu hawliau trwy wneud y canlynol:

  i. cyfathrebu ar bob cyfrwng cyfrwng mewn ffordd sy'n hyrwyddo golwg gadarnhaol ar hawliau, ac mewn fformatau hygyrch gan gynnwys fformat Hawdd ei  Darllen, Iaith Arwyddion Prydain ac yn Gymraeg ac mewn ieithoedd cymunedol.

  ii. sicrhau bod staff sy'n darparu budd-daliadau Cymru yn wybodus ac yn brofiadol ac yn derbyn hyfforddiant parhaus wrth ddarparu cyngor cyfoes a chymorth priodol.

  iii. cyfeirio pobl at gyngor a chymorth annibynnol yn gynnar er mwyn:

  - nodi a mynd i'r afael ag achosion o galedi ariannol, gan helpu i dorri'r cylch tlodi; a
  - helpu i wneud eu cais am gymorth ariannol a herio penderfyniadau, ac ati.

  iv. parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i godi ymwybyddiaeth ac annog pobl i fanteisio ar fudd-daliadau nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru.

---

2 **Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru | Centre for Digital Public Services**
(https://gwasanaethaucyhoeddusdigidol.llyw.cymru/arweiniad-safonau/safonau-gwasanaeth-digidol-cymru)

# Canlyniadau'r Siarter

- Mwy o bobl yn manteisio ar fudd-daliadau Cymru, gan helpu i wneud y mwyaf o incwm aelwydydd a chyfrannu at fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru.
- Polisi gwybodus i Gymru sydd wedi cynnwys partneriaid ac unigolion a rhanddeiliaid eraill yn ei ddatblygiad.
- Gwell ymwybyddiaeth o hawl i fudd-daliadau a'r cymorth sydd ar gael drwy negeseuon clir ar fudd-daliadau yng Nghymru a budd-daliadau sydd heb eu datganoli, sydd hefyd yn herio mythau a stereoteipiau.
- Cyflawni ymrwymiadau ar wneud y mwyaf o incwm a'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau lles.
- Datblygu cymunedau cydnerth yn ariannol drwy ein hymrwymiad i liniaru ac atal tlodi.
- Gwella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel, gan eu cefnogi i gael dyfodol gwell a chyrraedd eu potensial llawn.
- Gostyngiad yn yr angen am gymorth brys fel banciau bwyd gan fod cartrefi yn cael eu cefnogi i gryfhau yn ariannol.
- Mesur y nifer sy'n manteisio yn ôl nifer y bobl a gefnogir drwy gynlluniau budd-daliadau Llywodraeth Cymru.

## Rhoi'r Siarter ar waith

Trwy gytuno i'r ymrwymiadau sydd yn y Siarter, mae partneriaid yn cytuno i gydweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu system fudd-daliadau sy'n gyson ac yn gweithio i bobl Cymru.

Bydd hyn yn cynnwys datblygu camau allweddol y gellid eu cyflawni i greu newid.

## Sut y byddwn yn sicrhau bod y canlyniadau yn cael eu gwireddu?

Bydd fframwaith gwerthuso yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â phrif randdeiliad, partneriaid cyflawni ac unigolion. Byddwn yn adrodd yn ôl ar sail hyn ac yn monitro'n rheolaidd.

Bydd y Siarter ei hun hefyd yn cael ei adolygu o dro i dro i sicrhau bod yr ymrwymiadau a'r canlyniadau yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn cytuno i ddilyn egwyddorion y Siarter ac i weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac eraill i gyflawni'r amcanion.

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Caerphilly County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cardiff Caerdydd

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

Cyngor Gwynedd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Merthyr Tydfil County Borough Council

monmouthshire sir fynwy

Cyngor Castell-nedd Port Talbot Neath Port Talbot Council

Newport City Council Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council

Powys

Rhondda Cynon Taf

Cyngor Abertawe Swansea Council

Torfaen County Borough Bwrdeistref Sirol Torfaen

Vale of Glamorgan Bro Morgannwg

wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol wrecsam

CLlLC WLGA

# Gwybodaeth Bellach

**Dylid anfon pob ymholiad ynglyn a'r siarter hwn i:**

Yr Is-adran Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd

Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

E-bost: **trechutlodiachefnogiteuluoedd@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49428, ISBN argraffu 978-1-83577-659-9, ISBN digidol 978-1-83577-661-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg